



Ein cyf RE/05313/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ardrethi annomestig a'r diwydiant manwerthu, a anfonwyd ar ran y Pwyllgor Deisebau.

Rwyf yn deall y buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pwysig y mae busnesau'n eu darparu ledled Cymru. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o gynlluniau i helpu talwyr ardrethi gyda'u biliau ardrethi annomestig. Yn 2019-20 mae Llywodraeth Cymru'n darparu rhyddhad ardrethi o dros £210 miliwn i ystod eang o fusnesau a thalwyr ardrethi eraill. Bydd mwy na thri chwarter o dalwyr ardrethi yng Nghymru'n elwa ar y rhyddhad hwnnw, gyda hanner yn talu dim byd o gwbl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau ac ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddwyd bod swm ychwanegol o £23.6 miliwn yn cael ei fuddsoddi i estyn a gwella ein cynllun rhyddhad ar gyfer y Stryd Fawr am flwyddyn bellach i mewn i 2019-20. Bydd y cynllun ehangach yn mynd yn sylweddol bellach na'r blynyddoedd blaenorol, gan ddarparu cymorth i ryw 15,000 o fanwerthwyr yng Nghymru gyda gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Mae'r cyfyngiad ynghylch sicrhau gostyngiad mewn gwerth ardrethol i eiddo yn sgil ailbrizio wedi'i ddileu. O ganlyniad, ar yr amod bod amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf, dylai talwyr ardrethi fod yn gymwys am Ryddhad y Stryd Fawr o hyd at £2,500 yn 2019-20. Mae'r cynllun yn seiliedig ar geisiadau. I gael gwybodaeth bellach am sut i wneud cais, dylai talwyr ardrethi gysylltu â'u hawdurdod lleol.

Mae gwybodaeth bellach am y gwahanol fathau o ryddhad sydd ar gael i'w chael ar y wefan ganlynol:

<https://businesswales.gov.wales/business-rates-relief-in-wales>.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fentrau hefyd sy'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer canol trefi. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio gwerth £100m, ein rhaglen adfywio Adeiladu ar gyfer y Dyfodol gwerth £54m, ein cynllun Benthyciadau Canol Trefi gwerth £31.5m £262,000 ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dwyn y gwaith o ailbriso ardrethi annomestig yng Nghymru ymlaen o 2022 to 2021, gan gynnig sicrwydd i dalwyr ardrethi a sicrhau bod yr ailbrisiadau sy'n sail i'r system ardrethi annomestig yn dal yn amserol ac yn gywir. Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud ynghylch amllder ailbrisiadau yng Nghymru wedi hynny, gan ein bod, yn hytrach, yn ymchwilio i ymagweddau amgen at ailbriso a threthi lleol yn ehangach.

Mae'r ddeiseb oddi wrth Ardal Gwella Busnes "Your Pontypridd" yn codi rhai pwyntiau diddorol ynghylch y newid yn natur manwerthu a gwario gan ddefnyddwyr. Bydd yr Ardal yn falch o wybod fy mod yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer diwygio trethi lleol yn y tymor hwy gan gynnwys datblygu ein cynlluniau rhyddhad ymhellach i sicrhau eu bod yn cael eu targedu i fodloni anghenion Cymru yn y ffordd orau. Mae'n fwriad gennym arddel dull gweithredu blaengar, teg a thryloyw tuag at drethi lleol, sy'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol. Ar 24 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar gynnydd y gwaith hwn. Mae ar gael yma:

<https://gov.wales/reforming-local-government-finance-wales-2018-update>

Caiff diweddariad pellach am y gwaith hwn ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd